**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)LA/0435/16

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

02 Chwefror 2016

Annwyl Christine,

Ar ôl imi fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 13 Ionawr, gwnaethoch ysgrifennu ataf ar 22 Ionawr yn gofyn am ragor o wybodaeth. Caiff yr wybodaeth hon ei chynnwys isod ac mae'n ategu'r wybodaeth rwyf eisoes wedi'i rhoi i chi yn fy llythyr dyddiedig 27 Ionawr.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**

Fel Llywodraeth, fe wnaethom ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion yn y gyllideb gyffredinol. Bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio ar gefnogi a chyflymu newid sylweddol ar hyd a lled y system gofal iechyd, a bydd y cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei wario'n uniongyrchol ar wasanaethau'r rheng flaen. Byddaf yn rhoi cyfrif am y dyraniadau trwy brosesau ariannol arferol monitro gwariant Llywodraeth Leol.

**Cronfeydd Wrth Gefn a ddelir gan Awdurdodau Lleol**

Mae pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel ei gronfeydd wrth gefn a sut i'w gweithredu. Rwyf wedi ysgrifennu at holl aelodau'r Awdurdodau gyda chanllawiau ar graffu ar gronfeydd wrth gefn. Gellir hefyd weld y canllawiau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru. Gweler y ddolen isod:

http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/guidance-elected-members/?skip=1&lang=cy

Byddaf yn parhau i gymryd diddordeb yn lefelau'r cronfeydd wrth gefn ac yn trafod hyn ag Awdurdodau unigol yn ôl yr angen.

**Effaith gostyngiadau i'r cyllid**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Leighton.Andrews@cymru.gsi.gov.uk

Rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y rôl y gall modelau darparu amgen ei chwarae o ran galluogi gwasanaethau i barhau wrth wynebu pwysau cyllidebol. Fel yr ydych yn ei nodi, rwyf wedi ymgynghori yn ddiweddar ar Gynllun Gweithredu ar gyfer Modelau Darparu Amgen mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn ystyried unrhyw newidiadau y gall fod eu hangen i'r Cynllun Gweithredu. Byddwn yn falch o roi diweddariad i'r Pwyllgor cyn gynted ag yr wyf wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad.

**Diwygio Llywodraeth Leol**

Mewn cyfnod o her ariannol a galw cynyddol ar wasanaethau, rwyf wedi nodi yn gwbl glir fy nisgwyliadau o Lywodraeth Leol a byddaf yn parhau i wneud hynny. Er bod uno Awdurdodau Leol yn ddull pwysig i alluogi diwygio, nid yw'n ddiben yn ei hun. Roedd fy neges yn yr Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gynhadledd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd y llynedd yn gwbl glir, mae'n rhaid i ni weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus i wella canlyniadau dinasyddion. Ni fu cydweithio'n effeithiol a gweithio ar draws ffiniau erioed mor bwysig ac mae llywodraeth leol mewn sefyllfa ddelfrydol i wneud hynny.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r ffyrdd o weithio y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn eu disgwyl gennym ni a'n partneriaid mewn Llywodraeth Leol ac ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n rhaid i ni gydweithio er mwyn ystyried goblygiadau hirdymor ac ehangach ein penderfyniadau os ydym am weithio'n gyflawn tuag at set gyffredin o nodau llesiant.

Mae gweithio fel un gwasanaeth cyhoeddus wrth wraidd y gwerthoedd a'r ymddygiadau arwain a lansiais yn yr Uwchgynhadledd, sydd bellach yn cael eu hyrwyddo fel craidd gwaith Academi Wales.  Mae hefyd wrth wraidd gwaith y Grŵp Effeithlonrwydd Adnoddau a Phanel Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall y ddau gynnig cyfleoedd i gefnogi cydweithio penodol, yn ogystal â'r gallu i ddysgu o brofiadau eraill.

Bydd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn darparu'r sail ymarferol i Awdurdodau sy'n uno sefydlu Pwyllgorau Pontio. Bydd y Pwyllgorau hyn yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod Awdurdodau'n cydweithio i greu sefydliadau newydd yn y cyfnod cyn yr uno.

**Cyfiawnder Ieuenctid**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid wedi lleihau'n sylweddol. Mae modd priodoli llawer o hyn i gyllido prosiectau sy'n cefnogi dulliau adferol o ddelio â phlant sydd wedi troseddu am y tro cyntaf, megis Triage yng Nghaerdydd a Biwro mewn rhannau eraill o Gymru. Rydym hefyd yn gweld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y garfan aildroseddu yn ogystal â llai o bobl yn aildroseddu a llai o aildroseddau.

Nid wyf yn hunanfodlon am y cyfraddau aildroseddu a byddwn yn parhau i gefnogi'r rheini sydd mewn perygl o aildroseddu trwy brosiect Rheoli Achosion sy'n cael ei gyllido ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Sefydlwyd y prosiect hwn yn dilyn astudiaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o bobl ifanc sydd â hanes o droseddu cyson iawn. Gwnaeth yr astudiaeth adnabod carfan lai o bobl ifanc sydd â llawer o broblemau a lefel angen uchel. Mae'r dull hwn wedi'i brofi mewn nifer bach o Dimau Troseddau Ieuenctid dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac rydym eisoes yn nodi rhai canlyniadau cadarnhaol unigol o'r gwaith. Mae gwerthusiad ffurfiol yn mynd rhagddo.

Rydym wedi gweld ymateb cadarnhaol trwy gefnogi prosiectau sydd wedi'u hanelu at gyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er fy mod wedi gorfod lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfiawnder ieuenctid, mae hyn yn cyd-fynd â'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y system. Mae pob maes yn llunio achosion busnes rhanbarthol ac maent eisoes yn cydweithio ar nifer o brosiectau cyfiawnder ieuenctid. Mae cyfle i gydweithio ymhellach ar brosiectau megis Biwro, gan fod hyn yn cynnwys yr heddlu ac felly mae modd ei gynnal ar draws ardaloedd y lluoedd eu hunain.

Byddwn yn parhau i fonitro effeithlonrwydd prosiectau fel rydym wedi'i wneud hyd yn hyn i sicrhau eu bod yn parhau i fodloni anghenion pobl ifanc sydd mewn risg o ddod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan o'r system.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae gofyniad statudol ar bob Awdurdod Lleol i gynnal ei Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei hun. Fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, nid yw'n rhesymol na'n ymarferol i gasglu ac asesu'r wybodaeth hon ar gyfer pob Awdurdod Lleol. Bydd y corff statudol perthnasol, megis y Comisiynydd Pobl Hŷn, yn ystyried pa mor ddigonol a chadarn yw'r asesiadau mewn perthynas â'r effaith ar grwpiau penodol wrth ystyried a yw Awdurdodau yn diwallu'u goblygiadau o ran asesiad o'r effaith ar eu cymunedau buddiant penodol. Fel rheoleiddiwr dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus i annog, arwain, monitro a rheoleiddio gweithgarwch ar y ddyletswydd.

**Y Gymraeg**

Bydd Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu gosod ar Awdurdodau Lleol yn ei wneud yn ofynnol iddynt asesu effaith eu penderfyniad polisi ar yr iaith. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am ystyried a yw Awdurdodau yn bodloni'u goblygiadau o ran y Gymraeg.

Yn gywir



**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services